



# **RHEOLIADAU A WNAED GAN GYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI MEWN PERTHYNAS Â RHEOLI EI FYNWENTYDD**



A greener place    Man gwyrddach



Hydref 2022

## **RHAGYMADRODD**

Nod y Cyngor yw darparu'r safonau uchaf o fewn ei Wasanaeth Mynwentydd i gwrdd ag anghenion y galarwyr a'r rhai sy'n ymweld. Mae'n hanfodol felly bod Rheoliadau Mynwentydd yn eu lle i gynnal urddas a sancteiddrwydd ein mynwentydd, yn ogystal â hysbysu holl ddefnyddwyr mynwentydd o'r gofynion rhesymol sy'n berthnasol iddynt, er mwyn galluogi'r Cyngor i reoli'r gwasanaeth yn effeithiol.

Mae'r Rheoliadau Mynwentydd yn cynnwys y gofynion statudol a gynhwysir yn Neddff Llywodraeth Leol 2000 a Gorchymyn Mynwentydd Awdurdodau Lleol 1977 ac unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol arall sy'n llywodraethu'r gwasanaeth hwn.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cadw'r hawl i wneud unrhyw ddiwygiadau, addasiadau neu ychwanegiadau i'r Rheoliadau Mynwentydd yn ôl yr angen.

Mabwysiadodd y Cyngor Siarter y Galarwyr yn 2002, ac mae'r Siarter, a hyrwyddir gan y Sefydliad Rheoli Mynwentydd ac Amlogfeydd, yn gydnabyddiaeth o ymrwymiad y Cyngor i ddarparu gwelliannau parhaus i'r rhai sy'n galaru.

Mae'r mynwentydd canlynol o fewn bwrdeistref sirol Caerffili yn dod o dan y rheoliadau hyn:-

- Mynwent Rhymni, Carno Street, Rhymni;
- Mynwent Gwaelod y Brithdir, Brithdir, Tredegar Newydd;
- Mynwent Gelligaer, Castle Hill, Gelligaer;
- Mynwent Llanfabon, Llanfabon Road, Nelson;
- Mynwent Bedwellte, Heol-y-Bedw-Hirion, Bedwellte, Coed Duon;
- Mynwent Abercarn, Cemetery Road, Persondy, Abercarn;
- Mynwent Danygraig, Tir-y-Cwm Road, Rhisga;
- Hen Fynwent Rhisga, Cromwell Road, Rhisga;
- Mynwent Bedwas, Ystâd Ddiwydiannol Pantglas, Bedwas;
- Mynwent Pen-yr-heol, Mill Road, Pen-yr-heol, Caerffili.
- Mynwent Gwaun Gledyr, Old Nantgarw Road, Caerffili.

Dylid cyfeirio pob ymholiad ynglŷn â'r Gwasanaeth Profedigaeth at y Tîm Gwasanaethau Profedigaeth gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod ac o fewn yr oriau swyddfa penodedig:- Dydd Llun – Dydd Iau 8.30am – 4.30pmp a Dydd Gwener 8.30am - 4.00pm. Mae'r swyddfa ar gau ar Wyl y Banc

Tŷ Bargoed  
1 St Gwladys Way  
Bargod  
CF81 8AB

Ffôn: 01443 811457

E-bost: [GwasanaethauProfedigaeth@caerffili.gov.uk](mailto:GwasanaethauProfedigaeth@caerffili.gov.uk)

## **RHEOLIADAU A WNAED GAN GYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI MEWN PERTHYNAS Â RHEOLI EI FYNWENTYDD**

Drwy gydol y rheoliadau hyn:-

ystyr “y Cyngor” yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili;

ystyr “Y Fynwent” yw unrhyw fynwent sy'n cael ei darparu a'i chynnal gan y cyngor, gan gynnwys y rhai yn Rhymni, Gwaelod y Brithdir, Gelligaer, Bedwellte, Llanfabon, Bedwas, Pen-yr-heol, Abercarn, Rhisga, Danygraig a Gwaun Gledyr;

ystyr “Swyddog Awdurdodedig” yw unrhyw swyddog o'r Cyngor neu ei gynrychiolydd penodedig at ddiben y rheoliadau hyn;

ystyr “bedd” yw man claddu a ffurfiwyd yn y ddaear drwy gloddio a heb unrhyw wal fewnol o waith brics neu waith carreg nac unrhyw leinin artiffisial arall;

Mae “bedd brics” yn golygu bedd, y mae ei ochrau wedi'u leinio â waliau.

Mae “claddgelloedd” yn golygu siambr a ddarperir ar gyfer derbyn gweddillion dynol neu weddillion dynol amlosgedig ynghyd â mynediad iddynt.

Mae “claddu” yn cynnwys: -

- (a) claddu gweddillion dynol neu weddillion amlosgedig .
- (b) claddu cyrff plant marw-anedig neu weddillion amlosgedig .
- (c) gosod mewn claddgell weddillion dynol, gweddillion dynol amlosgedig neu gyrff plant marw-anedig neu weddillion amlosgedig .
- (d) claddu gweddillion datgladdedig neu weddillion amlosgedig.

1. Bydd mynwentydd yr Awdurdod ar agor i gerddwyr neu gerbydau rhwng yr amseroedd a'r dyddiadau a ganlyn:

**Oriau'r Gaeaf – Rhwng 1 Hydref a 31 Mawrth :**

Dydd Llun i Ddydd Gwener	8.00am i 5.00pm
Dydd Sadwrn a Dydd Sul	9.00am i 5.00pm

**Oriau'r Haf – Rhwng 1 Ebrill a 30 Medi :**

Dydd Llun i Ddydd Gwener	8.00am i 7.30pm
Dydd Sadwrn a Dydd Sul	9.00am i 7.30pm

Fodd bynnag, os ceir mynediad i gerbydau ac eithrio cerbydau y cyfeirir atynt yn adran naw ar hugain o'r rheoliadau hyn y tu allan i'r amseroedd hyn, dylid rhoi o leiaf dri diwrnod o rybudd i'r swyddog awdurdodedig, yn

Swyddfeydd y Cyngor, Tŷ Bargod, 1 St Gwladys Way, Bargod CF81 8AB. Bydd y fynwent ar gau ar Ddydd Nadolig i fynediad cerbydau a chedwir pŵer i gau'r fynwent i'r cyhoedd pan fo angen. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i newid yr amseroedd uchod, yn ôl yr amgylchiadau. Bydd Hysbysiad Cyhoeddus yn rhoi gwybod am unrhyw newidiadau i'r rhain.

2. Bydd pawb sy'n cael eu derbyn i'r fynwent yn ddarostyngedig i'r rheoliadau hyn a bydd unrhyw unigolyn sy'n torri'r rheoliadau hyn yn cael ei symud o'r fynwent.
3. Mae cynllun traddodiadol y mynwentydd dros amser yn cyfyngu ar y rhyddid i symud rhwng y beddau. Mae hyn yn cael mwy o effaith ar y boblogaeth sy'n heneiddio. Mae mynediad i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn a'r rhai â symudedd cyfyngedig wedi'i gyfyngu'n ddifrifol neu'n amhosibl ar rannau traddodiadol. Mae rhannau o'r lawnt yn hygyrch gyda chymorth eraill neu staff pan fyddant ar gael.
4. Ni chaniateir cŵn yn y fynwent ac eithrio cŵn tywys, cŵn dysgu a rhai cŵn cymorth penodedig.
5. Mae'r oriau y bydd claddedigaethau yn digwydd fel a ganlyn:-

Dydd Llun i Ddydd Iau	9.00am i 3.00pm
Dydd Gwener	9.00am i 2.00pm
Dydd Sadwrn	9.00am i 11.00am

Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i newid yr amseroedd hyn er mwyn gweddu gyda gofynion gweithredol.

6. Ni chaniateir claddu ar ddyddiau Sul, Gwyliau Banc, Dydd Nadolig na Dydd Gwener y Groglith ac eithrio trwy ganiatâd y Cyngor lle gellir arddangos trwy ddangos tystysgrif feddygol na ellir gohirio'r gladdedigaeth, am resymau iechyd cyhoeddus.
7. Mae'r gofyniad Mwslimaidd am gladdu yn fuan ar ôl y farwolaeth wedi arwain at ddarparu taflen gan Lywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'i chymeradwyo gan y Fforwm Cymunedau Ffydd. Mae'r daflen yn cynnig cyngor ymarferol am y gwasanaeth a'r cyfleusterau y gall teulu mewn profedigaeth ddisgwyl eu cael gan awdurdodau claddu Cymru, a gellir lawrlwytho copi o'r ddogfen hon oddi ar wefan y cyngor ([www.caerffili.gov.uk](http://www.caerffili.gov.uk)).

Lle bo'n bosibl, cynigir darparu adrannau Mwslimaidd ar wahân i gydymffurfio â gofyniad y gymuned ar gyfer cyfeiriadedd penodol i'r eirch.

8. Yr amser a bennir ar gyfer angladd fydd yr amser y bydd yr orymdaith yn cyrraedd y fynwent. Os bydd gorymdaith angladdol yn cyrraedd y fynwent yn hwyr, efallai y codir tâl ychwanegol.

9. Bydd y ffioedd a'r taliadau ar gyfer claddedigaethau a gwasanaethau ategol yn cael eu hadolygu o bryd i'w gilydd yn ôl disgrisiwn y Cyngor.
10. Yn amodol ar dalu'r ffi briodol, gellir bwcio capel Mynwent Gwaelod y Brithdir i gynnal gwasanaeth claddu cyn claddu yn unrhyw un o fynwentydd dinesig y Cyngor.
11. Rhaid cyflwyno ceisiadau am gladdedigaethau i'r swyddog awdurdodedig yn Swyddfeydd y Cyngor, Tŷ Bargod, 1 St Gwladys Way, Bargod CF81 8AB, o leiaf ddau ddiwrnod gwaith llawn cyn claddedigaeth (ac eithrio diwrnod cyflwyno'r cais) mewn bedd pridd a phum diwrnod gwaith os oes angen bedd brics neu gladdgell. Y Trefnydd Angladdau a theulu'r ymadawedig sy'n gyfrifol am gwblhau'r cais yn llawn. Mae'r holl ffioedd sy'n ymwneud â'r gladdedigaeth i'w talu ymlaen llaw yn Swyddfeydd y Cyngor, Bargod cyn cadarnhau'r gladdedigaeth.
12. Ni chaniateir claddu oni bai bod y Cais am Gladdedigaeth yn cael ei gyflwyno i'r swyddog awdurdodedig yn Swyddfeydd y Cyngor, Tŷ Bargod, 1 St Gwladys Way, Bargod CF81 8AB. Rhaid i'r Trefnydd Angladdau drefnu, gyda saer maen cofeb sydd wedi'i gofrestru gyda Chofrestr Seiri Coffa Achrededig Prydain (BRAMM), i symud a storio unrhyw gofeb a osodir ar y bedd yn ddiogel, cyn cloddio am gladdedigaeth ddilynol i gydymffurfio â gofynion iechyd a diogelwch. Rhaid i'r Trefnwr Angladdau wedyn gyflwyno i'r swyddog awdurdodedig yn y fynwent ar adeg y claddu, y Rhybudd o Gladdedigaeth ynghyd â naill ai Gorchymyn Gwaredu'r Crwner neu Dystysgrif y Cofrestrydd.
13. Pan archebir claddedigaeth, ni chaniateir newid unrhyw fanylion oni bai y rhoddir rhybudd o newid yn ysgrifenedig i'r Swyddog Awdurdodedig o leiaf 48 awr cyn yr amser a archebwyd ar gyfer y gladdedigaeth.
14. Ni fydd y Cyngor yn gyfrifol am unrhyw gamddealltwriaeth sy'n codi o ganlyniad i gyfarwyddiadau ffôn felly rhaid cadarnhau pob cais yn ysgrifenedig.
15. Bydd goblygiadau cost i unrhyw newid a bydd hynny yn ôl disgrisiwn y Swyddog Awdurdodedig.
16. Bydd dyrannu gofod bedd, ym mhob achos, yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyngor.
17. Bydd pob trosglwyddiad o'r Hawl Unigryw i Gladdu yn cael ei wneud a'i gofrestru gan y Cyngor ac ni fydd unrhyw drosglwyddiad arall yn cael ei gydnabod gan y Cyngor.
18. Nid yw'r Hawl Unigryw i Gladdu yn gyfystyr ag unrhyw berchnogaeth tir. Yr hawl yn unig yw cael claddedigaeth mewn man bedd dethol.
19. Lle mae deiliad presennol yr Hawl Unigryw i Gladdu yn fyw ac yn dymuno trosglwyddo perchnogaeth i berson(au) arall, bydd yn rhaid

llenwi Ffurflen Aseiniad. Bydd y ddogfen hon yn cael ei pharatoi gan y Cyngor yn rhad ac am ddim ar ran perchennog y bedd.

20. Gellir trosglwyddo perchnogaeth bedd pan fydd deiliad cofrestredig yr Hawliau Claddu Neilltuedig wedi marw trwy gyflwyno unrhyw un o'r dogfennau a ganlyn i'r Swyddog Awdurdodedig:-
  - Ewyllys a Thystysgrif Marwolaeth.
  - Llythyrau Gweinyddiaeth.
  - Cwblhau Datganiad Statudol, y mae'n rhaid i Gyfreithiwr neu Gomisiynydd Llwon dystio iddo.
21. Cedwir cynllun o'r fynwent yn dangos safle pob man claddu a chofrestr o'r claddedigaethau yn Swyddfeydd y Cyngor, Tŷ Bargod, 1 St Gwladys Way, Bargod CF81 8AB a gellir eu harchwilio yn ystod oriau arferol yn ddi-dâl.
22. Bydd pob bedd a chladdgell yn cael eu cloddio, eu hagar, a'u llenwi gan y staff awdurdodedig. Rhaid rhoi arwydd ar Gais y Claddu o nifer y claddedigaethau sydd eu hangen yn y bedd. Rhaid i ddyfnderoedd beddau fod yn unol â safonau a osodir yng Ngorchymyn Mynwent Awdurdodau Lleol 1977 ac is-ddeddfwriaeth gysylltiedig.
23. Ni dderbynnir corff i'w gladdu ac eithrio mewn arch wedi'i gwneud yn gywir ac wedi'i diogelu'n gywir. Rhaid claddu gweddillion amlosgedig mewn cynhwysydd cymeradwy. Rhaid i'r arch/cynhwysydd gynnwys plât enw neu ffurf adnabod addas arall, a rhaid iddo gynnwys enw'r ymadawedig. Bydd y plât enw yn cael ei arsylwi gan aelod priodol o staff y fynwent cyn y gladdedigaeth.
24. Cyfrifoldeb y Trefnwr Angladdau neu berson arall sy'n cynnal yr angladd yw sicrhau bod digon o bobl ar gael i drosglwyddo'r arch i lan y bedd ac i'w gostwng i mewn i ofod y bedd. Ni fydd y Cyngor yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb o gwbl am y broses hon.
25. Ni chaiff unrhyw gorff ei gladdu mewn unrhyw fedd neu gladdgell o frics oni bai ei fod wedi'i gladdu ar wahân mewn modd aerglos, sef trwy waith carreg neu frics wedi'i smentio'n iawn.
26. Ym mhob achos o feddau heb eu prynu, eirch o bren yn unig sydd i'w defnyddio, ac ni chaniateir unrhyw frics na gwaith carreg tanddaearol.
27. Ym mhob achos, rhaid i'r Trefnwr Angladdau ar ôl derbyn y Cais am Gladdedigaeth nodi'n glir y deunydd a ddefnyddiwyd wrth adeiladu'r arch/casged. Mewn rhai achosion, mae cynwysyddion metel yn dderbyniol yn amodol ar gyflwyno rhybudd ymlaen llaw.
28. Rhaid i holl waliau beddau brics a/neu gladdgelloedd fod o leiaf 225mm o drwch gyda philer yng nghanol pob ochr i'r bedd 1,450mm wrth 225mm; bydd unrhyw fur rhwng dwy gladdgell yn fur cydrannol. Bydd yr holl waith ar gost y prynwr y gellir ei ailgodi'n llawn.

29. Dim ond hers a cheir y galarwyr ar gyfer pob angladd a ganiateir y tu mewn i gatiâu'r fynwent.
30. Bydd unrhyw ddifrod a achosir i unrhyw wal derfyn neu wal unrhyw gladdgell neu fedd brics drwy wneud unrhyw gladdgell neu fedd newydd yn cael ei adfer gan y sawl sy'n achosi'r difrod i foddhad y Cyngor.
31. Ar achlysur angladd cyhoeddus lle mae'n debygol y bydd difrod yn cael ei wneud i'r fynwent gan orlenwi, bydd y Trefnwr Angladdau yn hysbysu'r Cyngor, bydd gan swyddog awdurdodedig y Cyngor yr hawl i gyfyngu mynediad i'r fynwent.
32. Rhaid i bob torch (boed yn artiffisial neu fel arall), blodau wedi'u torri, planhigion o unrhyw ddisgrifiad ar ôl eu gosod neu eu cyflwyno yn y fynwent aros yno. Ni chaniateir eu symud oni bai eu bod yn cael eu rhoi yn y biniau sbwriel a/neu gompost a ddarperir at y diben hwn. Yn ogystal, rhaid gadael unrhyw sbwriel arall yn y biniau sbwriel hyn yn unig.
33. O ddyddiad gweithredu'r rheoliadau hyn, ni fydd unrhyw gofeb, fâs fetel, rheiliau na ffensys, cyrbau, llwyni neu goed, addurn neu adeiledd arall yn cael eu codi yn y fynwent. Bydd y Cyngor yn rhoi wyth diwrnod ar hugain o rybudd i ddeiliad yr Hawl Unigryw i Gladdu yn y llain i symud eitemau o'r fath. Os na chydymffurfir â'r hysbysiad hwn, gall y Cyngor symud eitemau anawdurdodedig o'r fath, a fydd yn cael eu storio'n ddiogel yn y fynwent i'w casglu wedyn ac ailosod y llain yn fedd o fath lawnt fel y nodir yn y rheoliadau hyn. Nid yw'r Cyngor yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am ddifrod neu golled eitemau anawdurdodedig o'r fath.
34. Mae'r Adran Claddu Naturiol (sydd ym Mynwent Abercarn) yn cynnig dewis amgen i gladdedigaeth gonfensiynol. Mae gan yr adran hon arwyddocâd ecolegol uchel ac felly mae angen sicrhau ein bod yn cadw'r glaswelltir naturiol a'r cynefin sydd ynddo. Oherwydd statws ecolegol uchel y tir ac i sicrhau na chollir unrhyw gynefin, ni chaniateir cofebion. Bwriedir i'r ardal gael ei gweld fel cofeb fyw ei hun. Bydd y beddau yn un dyfnder ac yn cael eu marcio gan y Cyngor gan ddefnyddio dyfais electronig. Dim ond ar adeg trefnu angladd y caniateir prynu lleiniau cyfagos ymlaen llaw. Rhaid gwneud eirch o ddeunyddiau bioddiraddadwy naturiol yn unig. Gall hyn gynnwys cardbord, pren, neu wiail o ffynhonnell gynaliadwy. Ni chaniateir y bwrdd sglodion safonol neu eirch byrddau ffeibr dwysedd canolig (MDF) neu eu tebyg. Nid yw'r Cyngor yn mynnu defnyddio arch. Gall teuluoedd mewn profedigaeth ddewis amdo gwllân neu gotwm; fodd bynnag, rhaid defnyddio cyfarpar urddasol ac ymarferol i drosglwyddo'r ymadawedig i'r bedd. Ni chaniateir claddu unrhyw gorff wedi'i bêr-eneinio o fewn yr adran hon. Bydd yr ardal yn cael ei thorri ddwywaith y flwyddyn, unwaith ar ddechrau ac unwaith ar ddiwedd y tymor torri, ni chaniateir torri gwair o gwbl. Er mwyn sicrhau ein bod yn amddiffyn a chynnal statws ecolegol naturiol yr ardal, ni chaniateir plannu o unrhyw fath, ni chaniateir defnyddio chwynladdwyr o

fewn yr ardal hon. Rhaid i blatiau enw a dolenni eirch ac ati fod yn fioddiraddadwy, ni chaniateir metel na phlastig.

35. Cyn codi unrhyw gofeb neu osod unrhyw arysgrif ychwanegol ar gofeb sy'n bodoli, rhaid i'r swyddog awdurdodedig gymeradwyo cais sydd wedi'i lofnodi'n briodol gan ddeiliad yr hawl i adeiladu a chynnal cofeb ac a gyflwynwyd gan Saer maen, sy'n aelod o Gofrestr Seiri Meini Coffa Achrededig Prydain (BRAMM). Rhaid i'r cais nodi'r dimensiynau, y deunydd i'w ddefnyddio a'r holl arysgrifau, dyluniadau a gwaith celf neu liwiau i'w rhoi arno. Rhaid gosod y gofeb i Safon Brydeinig 8415 neu unrhyw safon diwydiant arall, sydd wedyn yn cefnogi'r Safon Brydeinig.
36. Rhaid cyflwyno'r holl ffioedd sy'n ymwneud â cheisiadau i godi cofeb, neu osod arysgrif ychwanegol gyda'r cais.
37. Rhaid i unrhyw ddyluniadau, lluniadau, ffotograffau neu debyg gael eu cymeradwyo yn gyntaf gan y Swyddog Awdurdodedig cyn eu gosod.
38. Cyn codi'r gofeb neu ar ôl i arysgrif ychwanegol gael ei thorri ar unrhyw gofeb, rhaid cael tystysgrif cymeradwyaeth / trwydded gan y Swyddog Awdurdodedig a'i chyflwyno i staff y fynwent ar yr amser apwyntiad priodol cyn ailosod y garreg fedd.
39. Rhaid i bob cofeb ddwyn yr adran a'r rhif y bedd y mae i'w godi drosto; yn ogystal, dylid torri seren yn glir ar y gofeb i ddangos bod gosodiadau Cymdeithas Genedlaethol Seiri Meini Cofebau (NAMM) wedi'u defnyddio. Bydd y rhain yn cael eu torri'n glir ar y cefn ar gost y person sy'n codi'r gofeb. Nid yw'r Cyngor yn ymrwymo i gynnal a chadw cofeb o'r fath a'r perchennog sy'n gyfrifol am y gwaith cynnal a chadw hwn.
40. Mae gan y Cyngor raglen archwilio cofebion. Gall unrhyw gofeb y canfyddir ei bod yn anniogel, ac sy'n achosi perygl uniongyrchol i ymwelwyr â'r fynwent, contractwyr sy'n gweithio yn y fynwent, neu weithwyr y Cyngor, gael ei gwneud yn ddiogel ar unwaith ac adennill costau, heb roi rhybudd ymlaen llaw i ddeiliad yr Hawl Claddu Neilltuedig yn y llain honno. Yna byddwn yn cysylltu cyn gynted â phosibl â deiliad yr Hawl Unigryw i Gladdu yn rhoi gwybod iddynt am y camau a gymerwyd a natur y broblem.
41. Gall unrhyw gofeb y canfyddir ei bod yn anniogel, ond nad yw'n achosi perygl uniongyrchol, gael ei chynnal dros dro. Cysylltir â deiliad yr Hawl Unigryw i Gladdu yn y bedd dan sylw a'i hysbysu i gyflogi saer maen cofebion a chywiro'r diffygion yn y gofeb. Bydd amserlenni caeth yn weithredol ar gyfer cyflawni'r gwaith atgyweirio. Bydd methu â chydymffurfio â'r amserlenni hyn yn golygu y bydd y Cyngor yn gwneud y gwaith atgyweirio ac efallai y bydd angen i ddeiliad yr Hawl Unigryw i Gladdu yn y bedd hwnnw dalu costau'r Cyngor.
42. Ac eithrio gyda chaniatâd ymlaen llaw gan y Cyngor, ni chaniateir torri na thrin cerrig o fewn y fynwent nac wrth ei mynedfa; a bydd yr holl ddeunyddiau a ddefnyddir mewn cysylltiad â chodi / symud y cerrig beddi



/ cyrbau yn cael eu cludo i mewn i'r fynwent a'i symud oddi yno yn y fath fodd ag y bydd swyddog awdurdodedig y Cyngor yn ei gyfarwyddo. Bydd unrhyw ddifrod a achosir i'r llwybrau, ffyrdd, coed, adeiladau, neu unrhyw strwythur arall o ganlyniad i'r gweithrediadau hyn, yn cael ei atgyweirio ar draul y parti sy'n achosi'r difrod.

43. Ni chaniateir gosod unrhyw eiriau nac arysgrifau sarhaus ar unrhyw gofeb yn y fynwent.
44. Bydd y Cyngor, ar ei gost ei hun, yn cynnal a chadw holl ardal laswelltog y fynwent.
45. Ni chaniateir unrhyw goed, llwyni, planhigion nac unrhyw beth o gwbl ar yr ardal dywarchen ac eithrio blodau wedi'u torri, torchau blodau ffres neu arddangosfeydd artiffisial. Dim ond fel rhan o adeiladu cofeb y caniateir fasys blodau.
46. Ni chaiff neb wneud y canlynol:-
  - Creu unrhyw aflonyddwch yn fwriadol mewn mynwent sydd o dan reolaeth y Cyngor.
  - Cyflawni unrhyw niwsans mewn mynwent o dan reolaeth y Cyngor.
  - Ymyrryd yn fwriadol ag unrhyw gladdedigaeth sy'n digwydd yn y fynwent.
  - Ymyrryd yn fwriadol ag unrhyw fedd neu gladdgell, unrhyw gofeb, neu unrhyw flodau neu blanhigion neu unrhyw eitemau o'r fath; neu
  - Chwarae unrhyw gêm neu chwaraeon mewn mynwent.
47. Ni chaiff neb hysbysebu unrhyw wasanaethau na hysbysebu unrhyw eitemau i'w gwerthu o fewn y fynwent.
48. Gwaherddir defnyddio fideo, camerau sine a ffotograffau llonydd heb ganiatâd ymlaen llaw gan y Cyngor, y mae'n rhaid ei gael saith diwrnod ymlaen llaw yn ysgrifenedig gan y swyddog awdurdodedig. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i weld a golygu unrhyw fideo, camerau sine neu ffotograffau llonydd.
49. Mae'r Cyngor yn caniatáu i gofebion, sydd i'w codi yn ei fynwentydd gael eu hadeiladu o farmor, gwenithfaen, llechi, carreg Portland neu gompownd marmor addas ac ni ddylai'r dimensiynau fod yn fwy na'r rhai a nodir isod. Ni chaniateir unrhyw ddimensiynau neu ddeunyddiau eraill o gwbl.
50. Ni fydd dimensiynau cofebion ym Mynwentydd Pen-yr-heol, Bedwas, Gelligaer, Bedwellte, Rhymni, Llanfabon, Gwaelod y Brithdir, Abercarn, Rhisga Danygraig a Gwaun Gledyr yn fwy na'r hyn a nodir isod:-

Uchder uchaf (gan gynnwys plinth)	3 troedfedd (914mm)
-----------------------------------	---------------------

Lled mwyaf	2 troedfedd 6 modfedd (762mm)
Trwch mwyaf	4 modfedd (102mm)
Lleiafswm dyfnder y pad concrit (h.y. blaen i gefn)	18 modfedd (457mm)
Hyd mwyaf y cludwr sylfaen concrit.	48 modfedd (1219mm)
Trwch mwyaf y pad	2 1/2 modfedd (64mm)

Ni fydd dimensiynau cofebion yn y Gerddi Gorffwys yn Abercarn, Danygraig, Bedwas, Gwaelod y Brithdir, Bedwellte, Gelligaer, Llanfabon, Pen-yr-heol (Gardd Gorffwys Newydd), Mynwentydd Rhymni, Gwaun Gledyr a Rhisga yn fwy na'r hyn a nodir isod. Bydd y dimensiynau hyn hefyd yn berthnasol i gofebion a godwyd o fewn ardaloedd y Plant ym Mynwentydd Bedwellte, Gwaelod y Brithdir, Abercarn, Gwaun Gledyr a Bedwas.

Uchder (gan gynnwys plinth)	2 droedfedd 3 modfedd (686mm)
Lled	2 droedfedd (610mm)
Trwch	3 modfedd (76mm)
Sylfaen	600mm x 300mm
Hyd mwyaf y cludwr sylfaen concrit.	3 troedfedd (914mm)

Ni fydd dimensiynau ar gyfer cerrig beddi yn yr Hen Ardd Orffwys ym Mynwent Pen-y-rheol yn fwy na'r hyn a nodir isod:-

Uchder	1 droedfedd (305mm)
Lled	1 droedfedd 6 modfedd (457mm)
Trwch	3 modfedd (76mm)
Sylfaen	3 modfedd (76mm)

Ni ddylai dimensiynau llechi coffa ar leiniau'r Ardd Orffwys fod yn fwy na'r hyn a nodir isod:-

Uchder	5 modfedd (127mm) ar lethr i 2 fodfedd (51mm)
Lled	15 modfedd (381mm)
Hyd	18 modfedd (457mm)
Trwch Isafswm Sylfaen	2 1/2 modfedd. (64mm)

Dylai cofebion yn yr ardd goffa newydd ym Mhenyrheol gael eu cynhyrchu o wenithfaen du gyda llythrennau aur ac ni fydd eu dimensiynau yn fwy na'r hyn a nodir isod:-

Uchder	4 modfedd (102mm) ar lethr i 2 fodfedd (51mm)
Lled	18 modfedd (457mm)
Hyd	18 modfedd (457mm)

Gyda phen gwastad 6 modfedd (152mm) ar gyfer cynhwysydd(ion) blodau

51. Ni chaniateir codi cofeb ar fedd llawn cyn chwe wythnos ar hugain (chwe mis) o ddyddiad y claddu.
52. Ni chaniateir codi cofeb ar lain o ardd orffwys cyn chwe wythnos o ddyddiad y claddu, ac eithrio lleiniau o fewn Gardd Gorffwys Mynwent Danygraig. Gellir gosod cofebion yn yr adran hon yn syth ar ôl claddedigaeth.
53. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i adolygu'r rheoliadau hyn o bryd i'w gilydd.
54. Mae'r rheoliadau hyn yn disodli'r holl reoliadau blaenorol sy'n effeithio ar reolaeth gyffredinol, rheoliadau a rheolaeth y fynwent a dylid eu darllen ar y cyd â'r rheoliadau a nodir yng Ngorchymyn Mynwentydd Awdurdodau Lleol 1977 neu unrhyw ddiwygiad neu ailddeddfiad ac is-ddeddfau a wneir o dan y cyfryw. Ystyrir bod y gorchymyn wedi'i ymgorffori yma.